



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

# Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Sycasau Teithiol (Cymru)

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 1  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 28 Tachwedd 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.  
This document is also available in English.

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn ichi am eich barn am y cynigion yn y ddeddfwriaeth ddrafft i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcau teithiol yng Nghymru. Nid ydym yn gofyn ichi a ddylid gwahardd defnyddio pob anifail mewn syrcau na chwaith a ddylid gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn mathau eraill o adloniant. Nid oes syrcau ag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru ond maen nhw'n ymweld â ni.

## Sut i ymateb

Y dyddiad cau yw canol nos  
**28 Tachwedd 2018.**

Cewch ymateb trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.

Fel arall, anfonwch eich ymatebion ysgrifenedig at:

e-bost:

[BilAnifeiliaidGwylltMewnSyrcauTeithiol@llyw.cymru](mailto:BilAnifeiliaidGwylltMewnSyrcauTeithiol@llyw.cymru)

neu

Tîm Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcau Teithiol  
(Cymru)  
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol  
Llywodraeth Cymu  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

I weld y ddogfen ymgynghori, ewch i wefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch:

Tîm Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcau Teithiol  
(Cymru)  
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol  
Llywodraeth Cymu  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost:

[BilAnifeiliaidGwylltMewnSyrcauTeithiol@llyw.cymru](mailto:BilAnifeiliaidGwylltMewnSyrcauTeithiol@llyw.cymru)

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddwch fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn prosesu'r wybodaeth bersonol hon yn unol â'u pwerau statudol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn neu wrth gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru am ddadansoddi'r ymatebion ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn hepgor y manylion hynny.

Dylech hefyd wybod am ein dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chedwir eich data gan Lywodraeth Cymru am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- yr hawl i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch ac i'w gweld
- yr hawl i fynnu ein bod yn cywiro unrhyw beth anghywir yn y data hynny
- yr hawl i wrthwynebu (o dan amgylchiadau penodol) prosesu'ch data personol neu gyfyngu ar eu defnyddio
- yr hawl (o dan amgylchiadau penodol) i fynnu bod eich data yn cael eu dileu
- yr hawl i ofyn (o dan amgylchiadau penodol) inni drosglwyddo'ch data i gorff arall
- yr hawl i gofrestru cwyn yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r

Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk>

## Cynnwys

Adran 1: Cefndir .....	7
1.1 Cyflwyniad.....	7
1.2 Y sefyllfa ar hyn o bryd.....	7
1.3 Y galw am waharddiad.....	8
1.4 Lles anifeiliaid gwylt mewn syrzasau teithiol .....	9
1.5 Cyflwyno gwaharddiad am resymau lles .....	10
1.6 Rhesymau moesegol dros waharddiad .....	13
1.7 Y ddeddfwriaeth newydd.....	13
1.8 Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid .....	14
Adran 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad.....	15
2.1 Polisi cyffredinol .....	15
2.2 Plant a Phobl Ifanc.....	15
2.3 Effeithiau economaidd.....	15
2.4 Bil Anifeiliaid Gwylt mewn Syrzasau Teithiol (Cymru) .....	15
2.6 Y Gymraeg.....	17
2.7 A oes materion cysylltiedig nad ydym wedi mynd yn benodol i'r afael â nhw? ....	18

### **Atodiad 1 - Crynodeb o'r Effeithiau**

### **Atodiad 2 - Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

## Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Mae lles anifeiliaid yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Rydyn ni wedi ymrwmo i wella safonau lles anifeiliaid yng Nghymru.

Lansiais ymgynghoriad cyhoeddus llynedd ar gyflwyno cynllun ar gyfer trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid (MAEs). Gwnes hynny fel ymateb i'r pryderon ei bod yn amhosib diwallu anghenion lles rhai o'r anifeiliaid sy'n cael eu cadw gan Arddangosfeydd Teithiol, gan gynnwys syrzasau, mewn amgylchedd teithio. Gofynnais hefyd am farn pobl ynghylch gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau.



Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu cynllun ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Teithiol. Bydd y cynllun yn cryfhau'n hymrwymiad i sicrhau'r safonau lles uchaf ar gyfer pob anifail a gedwir yng Nghymru.

Roedd mwyafrif llethol y rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn gryf o blaid gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau. Er nad oes syrzasau yng Nghymru sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt, maen nhw'n ymweld â ni, a phob tro, ceir galw am wahardd yr arfer.

Ym mis Chwefror eleni, cyhoeddais fy mod yn ystyried cyfleoedd i gyflwyno bil i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau, gan ddysgu o'r craffu diweddar<sup>1</sup> a fu ar y Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Act 2018, yn enwedig y drafodaeth am y dadleuon o safbwynt lles anifeiliaid a moeseg o blaid gwaharddiad. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, y byddai Bil i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yn cael ei roi ger bron y Cynulliad Cenedlaethol yn y 12 mis nesaf.

Mae llawer o'r galw am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yn canolbwyntio ar effaith ganfyddedig syrzasau ar les anifeiliaid ac mae llawer o bobl yn credu na all syrzasau teithiol ddiwallu anghenion lles anifeiliaid gwyllt.

Fodd bynnag, dylid rhoi sylw i ystyriaethau moesegol eraill yn ogystal â'r cwestiwn a yw lles anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn syrzasau teithiol yn dioddef. Mae'r farn yn tyfu mai rhywbeth o'r oes a fu yw defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau a'i fod yn foesebol annerbyniol. Un o'r canlyniadau strategol y mae Cynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru am ei weld yw bod gan *"anifeiliaid yng*

---

<sup>1</sup> Scottish Parliament, Parliamentary Business, Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Bill <<http://www.parliament.scot/parliamentarybusiness/Bills/104493.aspx>>

*Nghymru ansawdd bywyd da*".<sup>2</sup> Gellid dadlau nad yw ansawdd bywyd da yn bosib i anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol o gofio'r amgylchedd y maen nhw'n cael eu cadw ynddo, neu o leiaf ni all fod yn fywyd all gymharu mewn unrhyw ffordd â'r bywyd y gall anifail rhydd o'r rhywogaeth ei gael.

Rwy'n poeni am yr effaith y gallai gweld anifeiliaid gwyllt yn gwneud triciau annaturiol, yn unswydd i'n diddanu, ei chael ar agweddau pobl at anifeiliaid, yn enwedig yr agweddau sy'n datblygu mewn plant a phobl ifanc. Ni ddylai anifeiliaid gael eu trin fel gwrthrychau na'u gweld fel nwyddau ar gyfer ein diddanu. Maent yn hytrach yn fodau ymdeimladol sydd â'u hanghenion penodol eu hunain. Rwyf am i blant a phobl ifanc Cymru feithrin parch ac agweddau cyfrifol at anifeiliaid ac rwy'n awyddus iawn i glywed barn plant a phobl ifanc am ein cynigion.

Hoffwn glywed eich barn am y Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) drafft. Mae'n ceisio delio â'r pryderon moesegol hyn trwy wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru. Bydd datblygu cynllun ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Teithiol yn ategu'r gwaith hwn.



**Lesley Griffiths AC**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

---

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, Cynllun Gweithredu 2017-18  
<[https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2017-2018\\_0.pdf](https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-01/fframwaith-iechyd-a-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2017-2018_0.pdf)>

## Adran 1: Cefndir

### 1.1 Cyflwyniad

Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn ennyn teimladau cryfion a diddordeb brwd y cyhoedd a gwleidyddion fel ei gilydd.

Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaeth y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, ddatganiad llafar ar Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, gan gyhoeddi'r Biliau a fyddai'n cael eu rhoi ger bron y Cynulliad Cenedlaethol yn y 12 mis nesaf. Yn eu plith y mae bil i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn ichi am eich barn am y cynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth ddrafft i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru.

### 1.2 Y sefyllfa ar hyn o bryd

Nid oes syrcasau ag anifeiliaid gwyllt yng Nghymru ond maen nhw'n ymweld â ni. Mae dwy syrcas, Circus Mondao a Peter Jolly's Circus yn ymweld â Chymru'n rheolaidd, ac mae'r ddwy wedi ymweld â ni eleni. Cwmnïau o Loegr ydyn nhw ac maen nhw wedi'u trwyddedu o dan y Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012.<sup>3</sup> Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i berchenogion syrcasau teithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt fodloni nifer o amodau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a chadw cofnodion.

Yn ôl Adolygiad gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) o'r Rheoliadau ar ôl eu Gweithredu, bu gan Circus Mondao a Peter Jolly's Circus gyfanswm o rhwng 16 a 28 o anifeiliaid gwyllt ar adegau gwahanol ers i'r Rheoliadau ddod i rym yn 2013.<sup>4</sup> Yn eu plith yr oedd sebra, camel, zebu (math o wartheg), carw Llychlyn, racŵn, cadno a macaw, yn ogystal â rhywogaethau domestig.

Daw'r Rheoliadau yn Lloegr i ben ar 19 Ionawr 2020. Nid yw Llywodraeth y DU am adnewyddu'r Rheoliadau ac mae am wneud yn siŵr bod deddfwriaeth yn ei lle i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau erbyn y dyddiad y dônt i ben.

Mae syrcasau o dir mawr Ewrop yn cael ymweld â Chymru.<sup>5</sup> Mae traddodiad y syrcas deithiol yn dal i fod yn gryf mewn llawer o wledydd yn Ewrop; ac mae nifer a'r amrywiaeth o anifeiliaid gwyllt yn fwy nag a geir yn y Deyrnas Unedig. Mae rhai o'r syrcasau hyn yn dal i ddefnyddio anifeiliaid 'traddodiadol' y syrcas, fel eliffantod, llewod a theigrod.

---

<sup>3</sup> The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012  
<<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2012/9780111527832/contents>>

<sup>4</sup> Defra, The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012: Post Implementation Review 2018, January 2018 <<https://www.gov.uk/government/publications/the-welfare-of-wild-animals-in-travelling-circuses-england-regulations-2012-post-implementation-review>>

<sup>5</sup> Defra, Register a travelling circus or animal act to travel in the EU  
<<https://www.gov.uk/guidance/register-a-travelling-circus-or-animal-act-to-travel-in-the-eu>>

Mae'r Alban wedi gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Daeth y Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Act 2018 i rym ar 29 Mai 2018.<sup>6</sup> Mae gwledydd yn Ewrop, fel Gweriniaeth Iwerddon, Awstria a Gwlad Groeg hefyd yn gwahardd yr arfer. Mae gwledydd eraill yn gwahardd defnyddio rhywogaethau penodol a cheir llawer o waharddiadau lleol a rhanbarthol.

Yng Nghymru, mae rhai Awdurdodau Lleol yn gwahardd syrzasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt rhag perfformio ar eu tir.

Fe welwch ragor o wybodaeth am ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yn Atodiad 1.

### 1.3 Y galw am waharddiad

Rydyn ni wedi cael sawl apêl gan y cyhoedd a mudiadau'r trydydd sector i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau. Yn ogystal â'r pryderon ynghylch lles yr anifeiliaid, poenir hefyd a yw'n foesebol dderbyniol gwneud i'r anifeiliaid gwyllt deithio, byw mewn llociau dros dro a pherfformio i'n diddanu.

Mae Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried deisebau sy'n galw am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yng Nghymru ddwywaith.

- Roedd deiseb a gyflwynwyd gan RSPCA Cymru ym mis Hydref 2015 yn galw am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau.<sup>7</sup>
- Cafodd deiseb a gyflwynwyd gan Linda Evelyn Joyce Jones a oedd yn galw am wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yng Nghymru ei hystyried gan y Pwyllgor Deisebau ym mis Ionawr 2018<sup>8</sup> a'i thrafod yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Mawrth 2018<sup>9</sup>.

Yn 2017, gwnaethon ni ymgynghori ar gynllun ar gyfer trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid, gan gynnwys syrzasau.<sup>10</sup> Gofynnnon ni hefyd am farn pobl ynghylch gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Roedd mwyafrif llethol y rheini a ymatebodd o blaid gwaharddiad ac addawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths AC, y byddai'n ystyried cyfleoedd i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn debyg i'r rheini a gafwyd i ymgynghoriadau ar y pwnc gan Lywodraethau'r DU a'r Alban:

---

<sup>6</sup> The Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Act 2018

<<https://www.legislation.gov.uk/asp/2018/3/contents>>

<sup>7</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, P-04-653 Gwahardd y Defnydd o Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau yng Nghymru <<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?IId=13740&Opt=0>>

<sup>8</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yng Nghymru

<<http://senedd.cynulliad.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?IId=20656>>

<sup>9</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru (7 Mawrth 2018) <<http://record.assembly.wales/Plenary/4911?lang=cy-GB>>

<sup>10</sup> Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid

<<https://beta.llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid>>



- Yn 2009, cynhaliodd Defra ymgynghoriad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Roedd 95% o'r rheini a ymatebodd yn teimlo nad oedd yn dderbyniol defnyddio unrhyw anifail gwyllt mewn syrzas deithiol.<sup>11</sup>
- Ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban ar gynigion i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol am resymau moesol yn 2014. Roedd trwch y rheini a ymatebodd o blaid gwaharddiad, ac ymhlith ffigurau eraill, roedd bron 96% ohonynt yn teimlo nad oedd unrhyw fudd o gadw anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol.<sup>12</sup>

#### 1.4 Lles anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol

Nid oes rheoliadau penodol yng Nghymru sy'n ymdrin â lles anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol ond mae yna ddeddfwriaeth ehangach sy'n delio â'r mater:

Yn ôl **Deddf Lles Anifeiliaid 2006**<sup>13</sup>, mae'n drosedd i unrhyw un sy'n gyfrifol am anifail, gan gynnwys anifail gwyllt mewn syrzas deithiol, beidio â diwallu anghenion lles yr anifail. O dan adran 9 Deddf 2006, mae dyletswydd ar y sawl sy'n gyfrifol am anifail i ddiwallu anghenion yr anifail hwnnw. Mae'r anghenion hynny'n cynnwys: yr angen am amgylchedd addas; yr angen am ddiet addas; yr angen i allu ymddwyn yn naturiol; yr angen i gael ei gadw gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt; a'r angen i gael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd. Mae'n drosedd hefyd yn ôl Deddf 2006 beri poen neu dioddefaint diangen i anifail.

Mae **Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007**<sup>14</sup> (o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981) yn ei gwneud yn drosedd cludo unrhyw anifail mewn ffordd sy'n peri, neu a allai beri, anaf neu dioddefaint diangen i'r anifail hwnnw.

Mae'r **Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012** (o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006) yn gofyn am gofrestru perchennog pob syrzas deithiol yn Lloegr sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt.<sup>15</sup> Mae nifer o amodau y mae gofyn i berchenogion syrzasau gydymffurfio â nhw gan gynnwys cyflwyno a llunio manylion teithiau sy'n nodi lleoliad y syrzas a'i hanifeiliaid bob amser. Mae syrzasau trwyddedig yn cael eu harchwilio'n aml i wneud yn siŵr eu bod yn cadw at amodau'r drwydded. Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 19 Ionawr 2020 ac nid yw Llywodraeth y DU am eu hadnewyddu.

Mae **Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925**<sup>16</sup> yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n hyfforddi neu'n arddangos anifeiliaid gofrestru gydag Awdurdod Lleol a nodi manylion yr anifeiliaid dan sylw.

<sup>11</sup> The National Archives, Defra, Consultation on the use of Wild Animals in Circuses, March 2010 <<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20101109175937/http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/circus-wild-animals/>>

<sup>12</sup> Scottish Government, Should the use of wild animals in travelling circuses be banned in Scotland?, Consultation Analysis, May 2015 <<https://www.gov.scot/Resource/0048/00480385.pdf>>

<sup>13</sup> Deddf Lles Anifeiliaid 2006 <<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/contents>>

<sup>14</sup> Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 <<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/1047/contents/made/welsh>>

<sup>15</sup> Defra, Travelling circus with wild animals: get a licence <<https://www.gov.uk/guidance/travelling-circus-with-wild-animals-get-a-licence>>

<sup>16</sup> Performing Animals (Regulation) Act 1925 <<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo5/15-16/38>>

## 1.5 Cyflwyno gwaharddiad am resymau lles

Mae llawer iawn o bobl yn credu bod angen gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol er lles yr anifeiliaid hynny.

Mae'n drosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i'r sawl sy'n gyfrifol am anifail beidio â gofalu am les yr anifail (adran 9). Mae Adran 12 y Ddeddf yn rhoi'r pwerau i wneud rheoliadau i hyrwyddo lles anifeiliaid. Dywed Adran 12(1): *“The appropriate national authority may by regulations make such provision as the authority thinks fit for the purpose of promoting the welfare of animals for which a person is responsible, or the progeny of such animals.”*

Byddai angen i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod tystiolaeth wyddonol gref bod lles anifail sy'n cael ei gadw mewn syrzas deithiol yn dioddef er mwyn gallu troi at y pwerau dirprwyedig yn adran 12 Deddf 2006 i gyflwyno gwaharddiad.

### **Adroddiad Radford**

Wrth drafod y Bil Lles Anifeiliaid yn 2006, cytunodd Llywodraeth y DU bryd hynny, cyn belled â bod tystiolaeth wyddonol ddigonol, y byddai'n dod â gwaharddiad ger bron gan ddefnyddio'r pwerau dirprwyedig a geir yn y Bil Lles Anifeiliaid (Deddf 2006 erbyn hyn) ar ddefnyddio anifeiliaid annomestig mewn syrzasau teithiol. Cafodd Gweithgor Syrzasau ei sefydlu a phenodwyd cyfreithiwr academiaidd, Mike Radford, yn gadeirydd arno. Cylch gwaith y Gweithgor oedd darparu ac ystyried tystiolaeth ynghylch pa fath o gludiant a chartref sydd eu hangen ar anifeiliaid annomestig. Barnwyd mai dyma'r ffactorau oedd yn gwneud sefyllfa anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yn wahanol i sefyllfa anifeiliaid gwyllt mewn lleoedd eraill e.e. swau.

Cafodd y Gweithgor ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan fudiadau lles anifeiliaid a chan y diwydiant syrzasau. Casgliad adroddiad y Cadeirydd ('Adroddiad Radford'<sup>1</sup>) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2007 oedd nad oedd digon o dystiolaeth wyddonol i gyfiawnhau gwahardd anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Dywedodd hefyd nad oedd fawr o dystiolaeth ei bod hi'n well nac yn waeth ar les anifeiliaid mewn syrzasau teithiol nag ar anifeiliaid oedd yn cael eu cadw mewn mathau eraill o gaethiwed.

Nid oedd amodau hyfforddi a pherfformio anifeiliaid syrzas gwyllt yn rhan o gylch gwaith y Gweithgor (roedd gweithgor arall yn ystyried hyfforddiant a pherfformiad anifeiliaid yn gyffredinol). Yn ei adroddiad, cydnabu'r Cadeirydd bod osgoi dyblygu gwaith yn beth dymunol, ond cyfaddefodd y gallai ddychmygu y byddai sylwedd ei adroddiad wedi bod yn wahanol pe bai'r Gweithgor wedi cael edrych ar y darlun llawn.

Er ei gasgliadau, dywedodd y Cadeirydd nad oedd y status quo yn opsiwn, gan gydnabod bod disgwyliadau bellach y byddai'r Llywodraeth yn gwneud rhywbeth. Mae'r diwydiant syrzasau'n eithriadol yn yr ystyr bod rheoliadau penodol ar gyfer defnyddio anifeiliaid yn y rhan fwyaf o gyd-destunau masnachol eraill; mae angen datrys yr ansicrwydd sy'n wynebu syrzasau; mae'r sefyllfa fel ag y mae yn gweithio yn erbyn lles yr anifeiliaid dan sylw (cafwyd awgrymiadau y byddai perchenogion syrzasau'n amharod i fuddsoddi yn eu cyfleusterau oni gallent fod yn ffyddiog y byddai defnyddio anifeiliaid gwyllt yn parhau'n gyfreithlon) a: ceir cefnogaeth gan bob ochr y drafodaeth o blaid diwygio.

## Adolygiad Harris

Fel ymateb i ddeiseb RSPCA Cymru 2015, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd, Rebecca Evans AC, y byddai'n cynnal adolygiad o'r dystiolaeth ynghylch lles anifeiliaid mewn syrzasau teithiol a sefydlog. Comisiynwyd yr Athro Stephen Harris i gynnal yr adolygiad. Yn wahanol i Adroddiad Radford, edrychodd adolygiad Harris *et al* ('Adolygiad Harris'<sup>1</sup>), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, ar effaith pob agwedd ar eu hamodau rheoli a'u hamgylchedd ar les anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol a swau symudol. Y rheswm am ddilyn y trywydd hwnnw oedd er y gellid dehongli bod un agwedd ar reoli yn dda o safbwynt lles yr anifail, gallai agweddau eraill fod yn ddrwg. Felly o'u rhoi i gyd gyda'i gilydd, y casgliad fyddai ei fod yn ddrwg i les yr anifail.

Aeth Harris *et al* i chwilio a chysylltu ag arbenigwyr a mudiadau i holi'u barn am les anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol. Gwnaed hynny drwy holiadur deuran. Cafodd yr arbenigwyr eu didoli'n bum grŵp yn ôl eu harbenigeddau.

Daeth yr Adolygiad i nifer o gasgliadau. Dywedodd Harris *et al* bod pob un o'r pum grŵp o arbenigwyr yn gytŷn bod angen amgylcheddau cymhleth ac ysgogiadol wedi'u cyfoethogi er lles anifeiliaid gwyllt caeth a bod y gydberthynas rhwng maint y lloc a chymhlethdod ei le yn dod â buddiannau i les y rhywogaeth dan sylw. Cyfoethogi'r amgylchedd yw'r ffordd a ffefrir i daclo ymddygiad annaturiol gan ei fod yn rhoi dewis i'r anifail. Fodd bynnag, mewn syrzasau teithiol a swau symudol, mae'n debygol mai ychydig iawn os o gwbl o gyfoethogi fydd wedi bod ar yr amgylchedd, yn enwedig cyfoethogi at ddiben rheoli, hynny oherwydd yr angen i allu teithio, trin yr anifeiliaid yn hawdd a'u cadw'n ufudd yn ystod sesiynau hyfforddi.

Wrth ystyried effaith gyfunol pob agwedd ar amodau rheoli ac amgylchedd anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol, gan gynnwys y profiadau positif, daeth Harris *et al* i'r casgliad nad oeddent wedi gweld dystiolaeth i awgrymu y gallai'r cyfnodau perfformio a'r cyfnodau o fod ar gael i bobl eu gweld a/neu o gael eu trin, o'u rhoi gyda'i gilydd, yn gallu diystyru oes o gaethiwed clos, ymyrraeth gyson a diffyg dewis a rheolaeth ar eu bywyd. Yn wir, daethant i'r casgliad hwn ynghylch bywyd anifail gwyllt mewn syrzas deithiol: nid yw i bob golwg yn 'fywyd da' nac yn 'fywyd gwerth ei fyw'.

Eu prif gasgliad oedd nad oes modd diwallu anghenion lles anifeiliaid gwyllt mewn amgylcheddau teithiol i'r un graddau ag mewn amgylcheddau llonydd a "*The available scientific evidence indicates that captive wild animals in circuses and other travelling animal shows do not achieve their optimal welfare requirements, as set out under the Animal Welfare Act 2006, and the evidence would therefore support a ban on using wild animals in travelling circuses and mobile zoos on animal welfare grounds.*"

Mae casgliadau Radford a Harris *et al* yn wahanol iawn. Rhaid cofio eu bod wrth gwrs yn gweithio yn unol â chylchoedd gwaith gwahanol a gwnaeth Radford gyfaddef y gallai ei gasgliadau fod wedi bod yn wahanol pe bai ei Weithgor wedi cael gwahoddiad i edrych ar y 'darlun llawn'.

Roedd Llywodraeth y DU (Dadl Tŷ'r Cyffredin, 1 Mawrth 2012)<sup>17</sup> eisoes wedi penderfynu nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwaharddiad am resymau lles a phenderfynodd yn lle hynny ar ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt am resymau moesegol. Cafwyd esboniad llawnach gan Lywodraeth y DU wedi hynny o'i barn bod angen deddfwriaeth sylfaenol i gael gwaharddiad cyfreithlon ( o'i gyfieithu):

*"Ym mis Hydref 2007, ar ôl edrych ar y dystiolaeth wyddonol oedd ar gael, daeth yr adroddiad 'Wild Animals in Travelling Circuses: The Report of the Chairman of the Circus Working Group' (y cyfeirir ato'n aml fel 'Adroddiad Radford') a gomisiynwyd gan y Llywodraeth flaenorol, i'r casgliad, o ran defnyddio'r pwerau dirprwyedig a geir yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006 i gyflwyno gwaharddiad, nad oes fawr o dystiolaeth i bob golwg ei bod hi'n well nac yn waeth ar les anifeiliaid mewn syrcasau teithiol nag ar anifeiliaid oedd yn cael eu cadw mewn mathau eraill o gaethiwed. Felly, oherwydd diffyg tystiolaeth wyddonol gref, byddai ymgais i wahardd defnyddio anifeiliaid gan ddefnyddio'r pwerau dirprwyedig a roddir gan y Ddeddf Lles Anifeiliaid yn methu'r prawf cymesuredd, a rhaid wrth deddfwriaeth sylfaenol i gael gobaith realistig o sicrhau gwaharddiad cyfreithlon."*<sup>18</sup>

Ni wnaeth Llywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt. Cyflwynodd yn lle hynny yr Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012 fel mesur interim.

Yn ei hymgyngoriad yn 2014 ar gynigion i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol am resymau moesegol yn 2014, roedd Llywodraeth yr Alban yn cytuno â'r farn nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau gwaharddiad am resymau lles:

*"...scientific knowledge by itself does not yet provide relevant, rational and reliable answers to many questions on animal welfare typically raised by the general public. This is compounded when considering the welfare of wild animals in travelling circuses by the fact that there is little directly relevant scientific evidence of any sort.*

*Within the current scientific and legal context, the welfare status of these animals cannot be conclusively proven to be good or bad in comparison with animals in other situations generally considered to be acceptable. In the absence of sufficient scientific evidence of irredeemable welfare problems within a travelling circus environment, any attempt to ban the use of an animal using the delegated powers provided by the Animal Health and Welfare (Scotland) Act 2006 would fail the test of proportionality."*

---

<sup>17</sup> UK Parliament Website, House of Commons, Oral Answers to Questions (1 March 2012) <<https://publications.parliament.uk/pa/cm201212/cmhansrd/cm120301/debtext/120301-0001.htm>>

<sup>18</sup> HM Government, Wild Animals in Circuses (April 2013) <[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/228862/8538.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/228862/8538.pdf)>

Daeth Llywodraethau'r DU a'r Alban i'w casgliadau cyn cyhoeddi Adolygiad Harris.

O gofio'r nifer gymharol fach o anifeiliaid dan sylw, amheuir a fyddai canlyniadau unrhyw ymchwil bellach yn ddigon ystyrlon a chadarn i hysbysu'r drafodaeth yn well.

## 1.6 Rhesymau moesegol dros waharddiad

Ar un adeg, mynd i'r syrcas fyddai'r unig gyfle y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei gael i weld anifeiliaid gwyllt egsotig. Mae pethau wedi newid ers hynny. Mae syrcasau wedi cael eu disodli yn hynny o beth gan swau modern ac effeithiol sy'n rhoi'r flaenoriaeth fwyaf i gynnal y safonau uchaf er lles eu hanifeiliaid. Mae swau sydd wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu Swau 1981<sup>19</sup> yn gorfod cynnal mesurau cadwraeth ac addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am gadwraeth, yn benodol trwy ddarparu gwybodaeth am yr anifail a ddangosir a'i gynefin.<sup>20 21</sup> Nid oes yr un gofyn ar syrcasau ac mae'n amheus a allai amgylchedd syrcas byth ateb y fath ofyn. Yn ogystal â'r cyfleoedd i weld anifeiliaid gwyllt mewn swau, mae rhaglenni natur o'r radd flaenaf yn ennyn parch cynyddol at werth cynhenid anifeiliaid gwyllt yn eu cynefin naturiol.

Mae defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn ennyn pryderon am urddas yr anifail. Nid ar chwarae bach mwyach y mae cyfiawnhau cadw anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol a'u cael i wneud triciau.

Rydyn ni'n cydnabod bod llawer o'r farn nad oes modd diwallu anghenion lles anifail gwyllt mewn syrcas. Er nad oes tystiolaeth bendant bod lles anifail mewn syrcas deithiol yn dioddef mwy na lles anifail mewn amgylchedd 'artiffisial' arall, mae pobl Cymru a mudiadau'r trydydd sector wedi bod yn llobio o blaid gwahardd yr arfer.

Gyda Deddf Cymru 2017 yn dod i rym, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer bellach i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru am resymau moesegol.

## 1.7 Y ddeddfwriaeth newydd

Mae Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) drafft yn ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol. Disgrifir y cynigion yn y Bil yn fanylach yn Adran 2 a rhestrir yno hefyd y cwestiynau ymgynghori. Mae Atodiad 1 yn ystyried rhai o effeithiau cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Caiff asesiad llawn o effeithiau gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ei gynnal ar ôl yr ymgynghoriad.

Ni fydd y Bil yn effeithio ar ddefnyddio anifeiliaid domestig mewn syrcasau ac ni fydd yn rhwystro pobl rhag defnyddio anifeiliaid gwyllt fel adloniant mewn sefyllfaoedd eraill. Mae pryderon wedi'u mynegi nad yw anghenion lles rhai anifeiliaid sy'n cael eu cadw

---

<sup>19</sup> Zoo Licensing Act 1981 <[https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/pdfs/ukpga\\_19810037\\_en.pdf](https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1981/37/pdfs/ukpga_19810037_en.pdf)>

<sup>20</sup> Defra, Secretary of State's Standards of Modern Zoo Practice <[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/69596/standards-of-zoo-practice.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69596/standards-of-zoo-practice.pdf)>

<sup>21</sup> Nid oes angen trwydded ar rai swau, hynny oherwydd y nifer fach o anifeiliaid a gedwir neu oherwydd y math o anifail a gedwir, ac nid oes gofyn iddyn nhw gadw felly at amodau Deddf Trwyddedu Swau 1981.

gan Arddangosfeydd Teithiol eraill o Anifeiliaid (ADA) yn gallu cael eu diwallu mewn amgylchedd teithiol. Disgrifir ein cynlluniau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn isod.

## 1.8 Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid

Mae lles anifeiliaid yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.<sup>22</sup> Mae lles anifeiliaid yn bwnc difrifol ac rydyn ni'n disgwyl i eraill ei ystyried fel pwnc difrifol hefyd.

Mae Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid yn amrywiol ac yn cynnwys arddangosfeydd heboga teithiol, anifeiliaid anwes egstog sy'n cael eu harddangos mewn ysgolion at ddibenion addysgol, a cheirw Llychlyn mewn digwyddiadau adeg y Nadolig, a syrcau teithiol wrth gwrs. Nid oes trefn drwyddedu safonol na gofyn i gynnal archwiliadau.

Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan Awdurdodau Lleol ddechrau 2017, ceir o leiaf 53 o Arddangosfeydd Teithiol yng Nghymru. Dewiswyd detholiad o'r Arddangosfeydd Teithiol hyn i'w holi a gwnaeth pob un ddweud y carent weld y diwydiant yn cael ei reoleiddio mewn rhyw ffordd. Byddai hynny meddent yn diogelu lles yr anifeiliaid ac yn rhoi mwy o hygredd i'w busnesau.

Ym mis Gorffennaf 2017, lanswyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ar gyflwyno cynllun ar gyfer trwyddedu neu gofrestru Arddangosfeydd Teithiol. Roedd yn well gan fwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad drwyddedu na chofrestru ac rydyn ni wrthi nawr yn datblygu cynllun ar gyfer trwyddedu Arddangosfeydd Teithiol. Bydd y cynllun trwyddedu yn darparu ar gyfer cynnal archwiliadau i sicrhau bod safonau lles uchel yn cael eu cadw a bod anifeiliaid yn cael eu dangos mewn ffordd sy'n ennyn parch ac agwedd gyfrifol at bob rhywogaeth.

Nid ydym yn gweithredu ar ein pen ein hunain; rydyn ni'n siarad â rhanddeiliaid ac asiantaethau gorfodi a byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arall maes o law. Rydyn ni'n cydweithio hefyd â'r Gweinyddiaethau eraill. Bydd hynny'n sicrhau bod y cynllun yn cael effaith hirhoedlog ar les anifeiliaid mewn Arddangosfeydd Teithiol ac ar agweddau cenedlaethau o berchenogion anifeiliaid yn y dyfodol yng Nghymru.

---

<sup>22</sup> Llywodraeth Cymru, Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru <<https://beta.llyw.cymru/grwp-fframwaith-iechyd-lles-anifeiliaid-cymru>>

## Adran 2: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

### 2.1 Polisi cyffredinol

Amcan y polisi yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yng Nghymru. Rydyn ni eisoes wedi esbonio yn y ddogfen hon pam yn ein barn ni y dylid gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol.

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno deddfwriaeth fyddai'n ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrzas deithiol?

### 2.2 Plant a Phobl Ifanc

Cafodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ei fabwysiadu'n ffurfiol gennym yn 2004. Mae'n gwaith yn seiliedig ar gyflawni amcanion craidd y Confensiwn.<sup>23</sup>

Rydyn ni'n poeni am yr effaith y gallai gweld anifeiliaid gwyllt yn perfformio yn unswydd i'n ddi-ddanu mewn syrzasau teithiol ei chael ar agweddau pobl at anifeiliaid, yn enwedig yr agweddau sy'n datblygu mewn plant a phobl ifanc.

**Cwestiwn 2:** A ydych chi'n cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol yn cael effaith bositif ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid? A oes gennych dystiolaeth i gefnogi'ch barn y carech ei rhannu â ni?

### 2.3 Effeithiau economaidd

Mae'n anodd mesur effeithiau economaidd gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau teithiol ar y syrzasau a'r cymunedau y maen nhw'n ymweld â nhw a byddem yn falch o glywed tystiolaeth ynghylch maint unrhyw effeithiau. Darllenwch Atodiad 1, lle rydyn ni'n ystyried rhai o effeithiau cyflwyno'r deddfwriaeth.

**Cwestiwn 3:** A ydych chi'n credu y gallai gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrzasau teithiol gael effaith ar syrzasau neu ar ddiwydiannau cysylltiedig eraill? Beth fyddai'r effeithiau hynny a pham?

### 2.4 Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrzasau Teithiol (Cymru)

#### Mae Adran 1 yn disgrifio'r drosedd.

Bydd trosedd wedi'i chyflawni os bydd gweithredwr syrzas deithiol yn defnyddio neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall ddefnyddio anifail gwyllt yn y syrzas deithiol. Bydd anifail gwyllt wedi'i ddefnyddio os bydd yr anifail hwnnw'n perfformio neu'n cael ei arddangos.

<sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, Plant a Phobl Ifanc <<https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/?lang=en>>



**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno â'r drosedd a gynigir?

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno mai gweithredwr y syrcas deithiol ddylai fod yn atebol am y drosedd hyd yn oed os mai person arall sy'n defnyddio'r anifail gwyllt?

### **Mae Adran 2 yn esbonio ystyr "gweithredwr"**

Yn y Bil drafft, ystyr "gweithredwr" yw perchennog y syrcas deithiol neu berson arall sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol ac os na fydd y naill na'r llall yn bresennol, y person yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am weithrediad y syrcas deithiol.

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o'r gair "gweithredwr"?

### **Mae Adran 3 yn esbonio ystyr "anifail gwyllt"**

Yn y Bil drafft, mae "anifail gwyllt" yn golygu math o anifail nad yw yn aml yn cael ei gadw fel anifail domestig yn Ynysoedd Prydain. Mae hwn yn debyg i'r diffiniadau o "anifail gwyllt" yn Neddf Trwyddedu Swau 1981 (adran 21(1)) a'r Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Act 2018 (adran 2 (1)).

Mae Adran 3(2) yn disgrifio anifail fel math domestig os yw ymddygiad, cylch bywyd neu ffisioleg y math hwnnw o anifail wedi'i newid am fod amodau bridio neu fyw neu genedlaethau lawer o'r math hwnnw o anifail wedi bod o dan reolaeth dyn. Dyma'r diffiniad a geir yn y Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Act 2018 (adran 2(2)) ac mae'n debyg i'r diffiniad yn y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (adran 2, para 14)<sup>24</sup>.

Yn y Bil drafft, mae "anifail" yn golygu'r ystyr a roddir iddo yn Neddf Lles Anifeiliaid 2006.

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o "anifail gwyllt"?

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno â chynnwys adran 3(3) a fyddai'n caniatáu gwneud rheoliadau i bennu'r mathau i anifeiliaid a ystyrir yn rhai gwyllt ac yn rhai nad ydynt yn wyllt? Gweinidogion Cymru fyddai'n gwneud y rheoliadau hynny (gweler adran 7 y Bil drafft).

### **Mae Adran 4 yn esbonio ystyr "syrkas deithiol"**

Yn y Bil drafft, mae "syrkas deithiol" yn golygu syrkas sy'n teithio o un lle i'r llall at ddiben darparu adloniant yn y llefydd hynny. Mae'r diffiniad yn cydnabod y bydd yna gyfnodau pan na fydd y syrkas deithiol yn teithio.

<sup>24</sup> Explanatory Notes to the Animal Welfare Act 2006  
<<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/45/notes/division/7/1/2>>



**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o "syrkas deithiol"?

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno â chynnwys adran 4(4) a fyddai'n caniatáu gwneud rheoliadau i bennu'r mathau o weithgarwch, act, adloniant neu debyg sydd i'w hystyried fel syrkas deithiol? Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y rheoliadau hynny (gweler adran 7 y Bil drafft).

### **Mae Adran 5 yn ymdrin â'r pwerau gorfodi**

Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaethau ynghylch pwerau gorfodi.

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau gorfodi a ddisgrifir yn yr Atodlen?

### **Mae Adran 6 yn ymdrin â throseddau a gyflawnir gan gyrff corfforaethol ac ati**

Mae'r adran hon yn gymwys pan gyflawnir trosedd o dan adran 1 gan (a) corff corfforaethol; (b) partneriaeth; neu (c) cymdeithas anghorfforedig heblaw partneriaeth ac mae'n ei gwneud yn bosib i unigolion penodol o fewn y cyrff hynny fod yn atebol am y drosedd.

### **Mae Adran 7 yn ymdrin â rheoliadau a wneir o dan y Bil drafft**

Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y Rheoliadau o dan y Bil drafft i bennu'r mathau o anifeiliaid y dylid eu hystyried yn rhai gwyllt a'r rhai nad ydynt yn wyllt a'r hyn a ystyrir sy'n syrkas deithiol. Arferir y pŵer i wneud rheoliadau trwy offeryn statudol a gellid ei ddiddymu gan benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y weithdrefn negyddol"<sup>25</sup>). Gweler cwestiynau 8 a 10.

## **2.6 Y Gymraeg**

**Cwestiwn 12:** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 13:** Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gallai Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru) gael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

<sup>25</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Is-ddeddfwriaeth <<http://www.assembly.wales/cy/bus-home/bus-legislation/sub-leg/Pages/sub-leg.aspx>>

## 2.7 A oes materion cysylltiedig nad ydym wedi mynd yn benodol i'r afael â nhw?

**Cwestiwn 14:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Dywedwch wrthym am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd yn benodol i'r afael â nhw.

**Pwysig:** Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych inni gadw'ch ymateb yn ddi-enw, nodwch hynny'n glir yn eich ymateb.

## Atodiad 1 - Crynodeb o'r Effeithiau

### Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru)

#### Amcanion y Polisi

Amcanion y polisi yw cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru, am resymau moesegol. Rydyn ni wedi disgrifio'r ddadl foesegol yn yr ymgynghoriad.

Mae syrcasau teithiol wedi teithio o gwmpas y Deyrnas Unedig am ragor na dau gan mlynedd a bydd dal croeso iddynt yng Nghymru cyn belled nad ydynt yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Efallai bod rhai'n teimlo'n bod yn gorymateb wrth wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol o gofio bod nifer yr anifeiliaid dan sylw'n fach ac yn gostwng. Er hynny, bydd gwaharddiad yn rhoi neges glir bod pobl Cymru'n credu bod yr arfer yn un o'r oes o'r blaen ac yn foesegol annerbyniol.

Caiff asesiad llawn o effeithiau gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yng Nghymru ei gynnal ar ôl yr ymgynghoriad. Pwrpas y crynodeb hwn o'r effeithiau yw rhoi ychydig o ffeithiau a ffigurau ychwanegol am y diwydiant syrcasau a thynnu'ch sylw at y manau lle credwn y gallai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol effeithio arnyn nhw. Rydyn ni'n gwneud rhai rhagdybiaethau a'n gobraith yw y cawn wybodaeth well trwy'r ymgynghoriad.

#### Cefndir

Mae nifer y syrcasau teithiol sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt a nifer yr anifeiliaid gwyllt yn y syrcasau hynny wedi gostwng yn aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl Animal Defenders International, ym 1997, roedd 124 o anifeiliaid 'egsotig' yn teithio gyda syrcasau'r DU, gan gynnwys rheino, 16 eliffant, 15 llew ac 16 teigr<sup>26</sup> mewn 20 syrcas.<sup>27</sup> Yn 2005, roedd nifer yr anifeiliaid 'egsotig' wedi gostwng i 47. Yn ôl Asesiad Effaith Defra yn 2012, roedd 40 o anifeiliaid gwyllt mewn tair syrcas deithiol yn y DU.<sup>28</sup> Dim ond dwy syrcas ag anifeiliaid gwyllt sy'n teithio o gwmpas Cymru, y ddwy o Loegr ac mae'r ddwy wedi'u trwyddedu o dan y Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012.<sup>29</sup>

Yn ôl Adolygiad gan Defra o'r Rheoliadau ar ôl eu Gweithredu, bu gan y ddwy syrcas gyfanswm o rhwng 16 a 28 o anifeiliaid gwyllt ar adegau gwahanol ers i'r Rheoliadau ddod i rym yn 2013.<sup>30</sup> Yn eu plith yr oedd sebra, camel, zebu (math o wartheg), carw

<sup>26</sup> Animal Defenders International (2006). *Animal in Travelling Circuses: The Science on Suffering* <[http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/UK-Science-on-Suffering-low\\_020311.pdf](http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/UK-Science-on-Suffering-low_020311.pdf)>

<sup>27</sup> Animal Defenders International (2004). *Animal Circuses and the Animal Welfare Bill* <<http://www.stopcircussuffering.com/wp-content/uploads/2014/08/circusesawblowres.pdf>>

<sup>28</sup> Defra, Ending the use of wild animals in travelling circuses, Impact Assessment (2012) <[http://www.legislation.gov.uk/ukia/2012/41/pdfs/ukia\\_20120041\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukia/2012/41/pdfs/ukia_20120041_en.pdf)>

<sup>29</sup> The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012 <<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2012/9780111527832/contents>>

<sup>30</sup> Defra, The Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012: Post Implementation Review 2018, January 2018 <<https://www.gov.uk/government/publications/the-welfare-of-wild-animals-in-travelling-circuses-england-regulations-2012-post-implementation-review>>

Llychlyn, racŵn, cadno a macaw, yn ogystal â rhywogaethau domestig. Mae'r ddwy syrclas yn ymweld â Chymru'n rheolaidd ac maen nhw eisoes wedi ymweld â'r wlad eleni. Mae syrclasau o dir mawr Ewrop yn cael ymweld â Chymru.

Yn ôl Asesiad o'r Effaith gan Defra yn 2012, mae'r ffigurau a roddwyd i Defra yn 2007 yn amcangyfrif bod rhyw 320,000 o bobl wedi gweld y pedair syrclas deithiol oedd yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn 2011, roedd 153,000 o bobl wedi mynd i weld y tair syrclas deithiol oedd yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn 2011, roedd prisiau tocynnau'n amrywio o £7.50 i £20. Yn 2012, yn ôl Asesiad Llywodraeth yr Alban o'r Effeithiau ar Fusnes a Rheoliadau, roedd prisiau'n amrywio o £5.99 i £29.00.<sup>31</sup> Yn 2018, roedd y ddwy syrclas a oedd yn dal i defnyddio anifeiliaid gwyllt yn hysbysebu tocynnau am £5 i £20 ar eu gwefannau.

Nid yw'r rhan fwyaf o syrclasau teithiol yn defnyddio anifeiliaid gwyllt. Yn ôl Cymdeithas Perchenogion Syrclasau Prydain Fawr, mae mwy na thri deg o syrclasau'n teithio o gwmpas Prydain bob blwyddyn.<sup>32</sup> Yn 2018, yn ôl gwefannau a/neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol pymtheg o'r syrclasau hyn, y mae rhai ohonyn nhw'n defnyddio anifeiliaid domestig, roedd prisiau'u tocynnau yn amrywio o £7.15 i £33.20, gyda thocyn safonol i oedolyn yn costio ar gyfartaledd ychydig dros £20. Mae hyn yn awgrymu nad yw defnyddio anifeiliaid gwyllt yn cynnig 'premiwm' i'r syrclas; mae syrclasau'n gallu gweithio'n llwyddiannus hebddyn nhw ac nid yw bod heb anifeiliaid gwyllt yn lleihau gwerth y profiad. Pe bai anifeiliaid gwyllt mewn syrclasau teithiol yn cael eu gwahardd, ar ôl cyfnod pontio, dylai'r ddwy syrclas sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt allu parhau i deithio'n llwyddiannus yng Nghymru.

Yn ôl PETA UK, ym mis Gorffennaf 2017, roedd wyth o wledydd yr UE wedi gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrclasau.<sup>33</sup> Daeth gwaharddiadau i rym yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r Alban yn 2018. Mae gwledydd eraill yn gwahardd defnyddio rhywogaethau penodol a cheir llawer o waharddiadau lleol a rhanbarthol. Mae Llywodraeth y DU am sicrhau bod y ddeddfwriaeth ar gyfer gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrclasau teithiol yn ei lle erbyn y daw'r Welfare of Wild Animals in Travelling Circuses (England) Regulations 2012 i ben ym mis Ionawr 2020.

Yng Nghymru, mae rhai Awdurdodau Lleol yn gwahardd syrclasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt rhag perfformio ar eu tir.

## **Ystyriaethau Economaidd**

Y ddwy syrclas deithiol o Loegr sy'n parhau i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt fydd yn debygol o deimlo effaith uniongyrchol y gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrclasau teithiol.

---

<sup>31</sup> Scottish Government, Business and Regulatory Impact Assessment, Wild Animals in Travelling Circuses (Scotland) Bill, May 2017 <<https://beta.gov.scot/publications/business-regulatory-impact-assessment-bria-wild-animals-travelling-circuses-scotland/>>

<sup>32</sup> Association of Circuses Proprietors of Great Britain <<http://www.circusgb.com/index.html>>

<sup>33</sup> PETA UK <<https://www.peta.org.uk/blog/these-17-countries-banned-wild-animal-circuses/>>

Mae'r ymatebion i'r tri ymgynghoriad a fu yn awgrymu bod cefnogaeth gref iawn i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol.<sup>34 35 36</sup> Ond ni ellir anwybyddu'r ffaith bod rhai pobl yn mynd i'r syrcas yn benodol i weld anifeiliaid, gan gynnwys anifeiliaid gwyllt, yn perfformio. Heb anifeiliaid gwyllt yn perfformio neu heb anifeiliaid gwyllt i'w gweld, mae'n bosib y bydd rhai syrcasau'n colli eu hapêl ac y byddai llai'n mynd i'w gweld. Ar y llaw arall, mae'n bosib (er nad oes gennym dystiolaeth o hynny) y gallai syrcasau teithiol heb anifeiliaid gwyllt wella delwedd y diwydiant a chyfrannu at gynyddu'u poblogrwydd yn y tymor hir.

Ymhlith y pethau y mae pobl sy'n mynd i syrcasau yn gwario'u harian arnyn nhw y mae tocynnau, parcio, rhoddion a bwyd a diod yn y digwyddiad; a phethau fel trafndiaeth a bwyd a diod cyn ac ar ôl y digwyddiad.

Bydd y syrcasau teithiol eu hunain yn gwario yn y cymunedau maen nhw'n ymweld â nhw. Nid oes manylion faint sy'n cael ei wario, ond gellid dyfalu eu bod yn talu rhent ar y tir, yn prynu bwyd a sarn ar gyfer eu hanifeiliaid (os nad ydyn nhw'n dod â'r rheini gyda nhw) ac unrhyw ofal milfeddygol sydd ei angen. Mae'n bosib eu bod yn gwario hefyd ar hysbysebu yn yr ardal ac ar gyflogi gweithwyr dros dro. Gellid disgwyl felly gweld colli'r arian sy'n cael ei wario gan syrcasau teithiol yn benodol mewn cysylltiad â'u hanifeiliaid gwyllt.

Ni fyddai gofyn i syrcasau teithiol gael gwared ar eu hanifeiliaid gwyllt; gallen nhw ddewis peidio â'u gwerthu a'u cadw mewn lle parhaol. Ni fydd gwaharddiad o reidrwydd yn golygu lleihau costau'r syrcas ar ofalu am ei hanifeiliaid. Pe bai syrcas yn dewis cael gwared ar ei hanifeiliaid gwyllt, gellid disgwyl y byddai'r arian fyddai'n cael ei arbed gan y syrcas yn cael ei ysgwyddo gan y corff neu'r cyrff fydd yn cymryd yr anifeiliaid.

Mae'n anodd mesur yr effeithiau uchod a byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth y gallech ei rhoi inni ynghylch maint eu heffeithiau ar syrcasau teithiol a chymunedau.

---

<sup>34</sup> Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Arddangosfeydd Teithiol o Anifeiliaid  
<<https://beta.llyw.cymru/arddangosfeydd-teithiol-o-anifeiliaid>>

<sup>35</sup> The National Archives, Defra, Consultation on the use of Wild Animals in Circuses, March 2010  
<<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20101109175937/http://www.defra.gov.uk/corporate/consult/circus-wild-animals/>>

<sup>36</sup> Scottish Government, Should the use of wild animals in travelling circuses be banned in Scotland?, Consultation Analysis, May 2015 <<https://www.gov.scot/Resource/0048/00480385.pdf>>

## Atodiad 2 - Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

# Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru)

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i gyrraedd Llywodraeth Cymru cyn **28 Tachwedd 2018**. Y cyfeiriad ebost i ymateb neu wneud ymholiad yw:

[BilAnifeiliaidGwylltMewnSyrcasauTeithiol@llyw.cymru](mailto:BilAnifeiliaidGwylltMewnSyrcasauTeithiol@llyw.cymru)

Dylid anfon atebion yn y post at:

Tîm Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau Teithiol (Cymru)  
Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol  
Llywodraeth Cymu  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Mae'n bosib lawrlwytho'r ffurflen hon o wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru yma:  
<https://beta.llyw.cymru/ymgynghoriadau>

<b>Eich enw:</b>	
<b>Sefydliad (os yn berthnasol):</b>	
<b>Cyfeiriad Ebost:</b>	
<b>Eich cyfeiriad:</b>	

Caiff ymatebion i ymgynghoriadau fod yn gyhoeddus ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os fyddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddi-enw, ticiwch yma:

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno deddfwriaeth fyddai'n ei gwneud yn drosedd defnyddio anifail gwyllt mewn syrcas deithiol?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 2: A ydych chi'n cytuno y byddai gwahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol yn cael effaith bositif ar agweddau plant a phobl ifanc at anifeiliaid? A oes gennych dystiolaeth i gefnogi'ch barn y carech ei rhannu â ni?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 3: A ydych chi'n credu y gallai gwahardd defnyddio anifeiliaid mewn syrcasau teithiol gael effaith ar syrcasau neu ar ddiwydiannau cysylltiedig eraill? Beth fyddai'r effeithiau hynny a pham?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r drosedd a gynigir?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno mai gweithredwr y syrcas deithiol ddylai fod yn atebol am y drosedd hyd yn oed os mai person arall sy'n defnyddio'r anifail gwyllt?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o'r gair "gweithredwr"?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o "anifail gwyllt"?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â chynnwys adran 3(3) a fyddai'n caniatáu gwneud rheoliadau i bennu'r mathau i anifeiliaid a ystyrir yn rhai gwyllt ac yn rhai nad ydynt yn wyllt? Gweinidogion Cymru fyddai'n gwneud y rheoliadau hynny (gweler adran 7 y Bil drafft).**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**



**Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o "syrkas deithiol"?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â chynnwys adran 4(4) a fyddai'n caniatáu gwneud rheoliadau i bennu'r mathau o weithgarwch, act, adloniant neu debyg sydd i'w hystyried fel syrkas deithiol? Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y rheoliadau hynny (gweler adran 7 y Bil drafft).**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau gorfodi a ddisgrifir yn yr Atodlen?**

**YDWYF..... NAC YDWYF.....**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 12: Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Sycasau Teithiol (Cymru) yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 13: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut, yn eich barn chi, y gallai Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Sycasau Teithiol (Cymru) gael effeithiau positif, neu fwy o gyfleoedd positif, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, o ran peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Sylwadau:**

**Cwestiwn 14: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Dywedwch wrthym am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd yn benodol i'r afael â nhw..**

**Sylwadau:**